TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Rhaglen Beirianneg Uwch â€“ Trydanol Lefel 3

Yn gryno

Mae'r Rhaglen Beirianneg Uwch amser llawn hon yn darparu hyfforddiant, profiad gwaith go iawn a'r cyfle i symud ymlaen i brentisiaeth noddedig lawn. Bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, a bod ag awydd cryf i weithio yn y diwydiant peirianneg, gan fod dilyniant o'r cwrs hwn yn brentisiaeth.

Byddwch yn cael eich asesu trwy asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, cyflwyniadau, arddangosiadau, portffolios ac arsylwadau. Bydd angen i chi hefyd fod yn barod i gymryd rhan mewn lleoliad gwaith o leiaf 5 wythnos.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych yn dymuno dilyn gyrfa mewn peirianneg drydanol

... Ydych yn dda am ddatrys problemau

... Ydych yn weithgar ac yn llawn cymhelliant

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei gyflwyno'n llawn amser dros gyfnod o 36 wythnos am 30 awr yr wythnos ar gampws y coleg. Ceir rhwng 5 wythnos (150 awr) a 12 wythnos o leoliad profiad gwaith. Byddwch yn ymweld â nifer o'r prif gwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Byddwch yn dysgu trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig.

Byddwch yn astudio unedau a fydd yn cynnwys:

Iechyd a diogelwch
Mathemateg
Egwyddorion electronig trydanol
Rheolyddion rhesymeg rhaglenadwy
Dyfeisiadau electronig
Gwaith gosod trydanol
Technoleg drydanol
Electroneg analog
Peiriannau trydanol

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, cyflwyniadau, arddangosiadau, portffolios ac arsylwi. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel 3 mewn Peirianneg (Trydanol)

Lefel 2 PEO (Sefydliad Cyflogwr Proffesiynol) – 6 uned a ddewisir i ategu gofynion penodol y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael lle ar y cwrs hwn, bydd angen i chi feddu ar 5 TGAU Gradd C neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg, B mewn Mathemateg a thair Gradd C arall, yn ddelfrydol Gwyddoniaeth neu bynciau cysylltiedig.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Bydd angen ichi allu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Hefyd, mae dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant peirianneg yn ofynnol, gan y bydd y cwrs hwn yn arwain at Brentisiaeth. Disgwylir i bawb gadw at ethos y coleg a bod yn barod i gymryd rhan mewn o leiaf 5 wythnos o leoliad gwaith.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Prentisiaeth neu waith.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch yn cael cist offer a fydd yn werth oddeutu £200.000 ar ôl ichi gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu eich hun e.e. ffolderi, dalennau rhannu, pennau ysgrifennu, penseli, penseli lliw, cwmpas, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.